

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 26 Mai, 2021.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J.C. Bird (Cadeirydd); Is-Gadeirydd: Cyngorydd B.T. Gray; Cyngorwyr Ms. R.M. Birch, Mrs. C.A. Cave, Mrs. P. Drake, V.P. Driscoll, S.T. Edwards, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, G.C. Kemp, A.C. Parker, L.O. Rowlands, N.C. Thomas, Mrs. M.R. Wilkinson, E. Williams, M.R. Wilson a Ms. M. Wright.

Hefyd yn bresennol: Cyngorydd L. Burnett (Aelod ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) a P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cyngorydd N.P. Hodges fuddiant rhagfarnol mewn perthynas â Chais Rhif 2021/00295/FUL 14 Friars Road, Y Barri. Natur y buddiant oedd bod y Cyngorydd Hodges yn gyd-Aelod Ward ac yn ffrind personol i'r ymgeisydd. Tynnodd y Cyngorydd Hodges yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer y cais hwn, ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.

Datganodd y Cyngorydd A.C Parker fuddiant rhagfarnol mewn perthynas â'r Cam Gweithredu Gorfodi, y tir a'r adeiladau ym Mythynnod Hensol, Llanddunwyd. Natur y buddiant oedd mai'r Cyngorydd Parker oedd y pensaer ar gyfer y datblygiad gwreiddiol. Tynnodd y Cyngorydd Parker yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) DYLID nodi'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a gytunwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A o'r adroddiad.

(2) DYLID nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B o'r adroddiad.

(3) DYLID cyflwyno Hysbysiadau o dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran C o'r adroddiad.

EITEM AGENDA 5. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – Bod y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad o dan yr agenda o dan y pwerau dirprwyedig uchod yn cael eu nodi.

EITEM AGENDA 6. COED (PAC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Bod y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad fel y'u pennwyd gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig yn cael eu nodi.

EITEM AGENDA 7. CAMAU GORFODI (PAC) –

(i) Tir ac Adeiladau yn Hensol Cottage, Llanddunwyd

PENDERFYNWYD –

(1) DYLID awdurdodi'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi o dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol:

- (i) I ddymchwel yr adeilad a chwalu unrhyw sylfaen, llawr caled a'r cyfleustodau sydd wedi'u gosod mewn cysylltiad ag adeiladu'r adeilad;
- (ii) I dynnu i ffwrdd yn barhaol o'r tir yr holl ddeunyddiau sy'n deillio o gymryd cam (i);
- (iii) I ddychwelyd y safle i'w gyflwr cyn adeiladu'r adeilad, drwy lefelu'r safle i gyfateb i'r tir cyfagos, gosod uwchbridd a hau hadau glaswellt.

(2) DYLID rhoi'r awdurdod, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, i gymryd unrhyw achos cyfreithiol sy'n ofynnol.

Rheswym dros yr argymhellion

(1) Methodd yr adeilad, fel y'i hadeiladwyd, i gyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd naturiol cyfagos ac ymateb yn briodol i'r cyd-destun a'r cymeriad lleol. Yn y pen draw, cafodd effaith annerbyniol ar gefn gwlad ac o ystyried ei ymddangosiad domestig, cyfrannodd at erydu'r cymeriad gwledig lleol. Felly, methodd y datblygiad â chydymffurfio â gofynion maen prawf 1 a 2 Polisi MD1, maen prawf 1 Polisi MD1, Polisi DG13 o'r CCA Dylunio mewn Tirwedd, cynnwys TAN 12 yn ogystal â pholisi a chanllawiau a geir yn rhifyn Polisi Cynllunio Cymru 11.

(2) Nid oedd cyfiawnhad dros leoliad adeilad a ddefnyddir at ddibenion storio cyffredinol, a methodd ag ymateb yn briodol i'r cyd-destun a'r cymeriad lleol a chafodd effaith annerbyniol ar gefn gwlad. Felly, roedd yn groes i ofynion maen prawf 1 polisiâu MD1 ac MD2 a pholisi a chanllawiau a geir o fewn Polisi Cynllunio Cymru rhifyn 11.

(3) Ystyriwyd bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion llesiant y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(4) Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009.

EITEM AGENDA 8. CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

2020/00434/OUT

Tir yn Beggars Pound, Cowbridge Road, Sain Tathan

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad, a diwygiad i Amod 8 fel a ganlyn:

- 8 Cyn dechrau pob cam datblygu, bydd asesiad o natur a graddau'r halogiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal gan, neu o dan gyfarwyddyd, person cymwys sydd â chymwysterau addas* yn unol â Chod Ymarfer BS10175 (2011) ar gyfer Ymchwilio i Safleoedd a Allai fod wedi'u Halogi, a bydd yn asesu unrhyw halogiad ar y safle, p'un a yw'n tarddu o'r safle ai peidio.

Bydd adroddiad y canfyddiadau'n cynnwys:

- (i) ymchwiliad ymwthiol i asesu graddau, graddfa a natur halogiad a all fod yn bresennol, fel yr argymhellwyd gan Gam 1 Astudiaeth Ben-ddesg Cyfun Asesiad Geo-amgylcheddol a Geodechnegol (13 Rhagfyr 2019).
- (ii) asesiad o'r risgiau posibl i:
 - iechyd dynol,
 - dŵr daear a dŵr wyneb ar dir cyfagos,
 - eiddo (presennol neu arfaethedig) gan gynnwys adeiladau, cnydau, da byw, anifeiliaid anwes, coetir a llinellau a phibellau cyfleustodau,
 - systemau ecolegol,
 - safleoedd archeolegol a henebion; ac
 - unrhyw dderbynyddion eraill a nodwyd yn (i).
- (iii) arfarniad o opsiynau adferol, a chyfiawnhad dros yr opsiwn(au) adferol dewisol.

Rhaid i'r holl waith a chyflwyniadau a wneir at ddibenion yr amod hwn gael eu cynnal yn unol â 'Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer Rheoli Halogiad Tir,

CLR 11' DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd (Medi 2004) a dogfen ganllaw CLILC / LIC / CNC 'Halogiad Tir: Canllaw i Ddatblygwyr' (2017) oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i unrhyw amrywiad.

* Fel arfer, byddai disgwyl i 'berson cymwys dyf â chymwysterau addas' fod yn aelod siartredig o gorff proffesiynol priodol (fel Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Cymdeithas Ddaearegol Llundain, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sefydliad Rheolaeth Amgylcheddol) a hefyd â phrofiad perthnasol o ymchwilio i safleoedd halogedig.

Rheswm:

Sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir ar gyfer asesu'r risgiau o halogi tir i ddefnyddwyr y tir, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn y dyfodol yn ddigonol i alluogi asesiad priodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) o'r CDLI Mabwysiedig 2011-2026.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2020/01367/RG3

Plot C, Ystâd Masnach yr Iwerydd, Y Barri

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2021/00231/FUL

Ysbyty Athrofaol Llandough, Penlan Road, Llandochau

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

2021/00295/FUL

14 Friars Road, Y Barri

CYMERADWYWYD – Yn ddarostyngedig i'r amodau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.